Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn yr Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 16 Mawrth 2020, am 7:00pm.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Gavin Harris (Maer), Heather Williams (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Jim Bryan, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape ac Ifan Wyn.
Y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch Roberts ac Emrys Wynne ac un aelod o'r cyhoedd.

219. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

220. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

221. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer y byddai'n darparu adroddiad y mis nesaf.

222. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Heather Williams (Dirprwy Faer)	Rasus diwrnod crempog ar y Sgwâr Beirniadu cystadleuaeth addurno ffenestri Gŵyl Ddewi a chyflwyniadau i'r enillwyr Agoriad arddangosfa Dyfodol Rhuthun yn yr Hen Lys Fforwm Chwaraeon a Hamdden Rhuthun yn yr Hen Lys Bore coffi i grwpiau cymunedol yn yr Hen Lys Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys Cyfarfod Partneriaeth Twristiaeth Sir Ddinbych yn y Ganolfan Grefft Cyfarfod Tîm Tref Taclus Rhuthun yn yr Hen Lys Cinio Elusennol y Maer yng Nghastell Rhuthun
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Rasus diwrnod crempog ar y Sgwâr
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod y Grŵp Craffu ar Ddogfennau
Cyng. Jim Bryan	Cyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a Chinio Elusennol y Maer yng Nghastell Rhuthun
Cyng. Ken Hawkins	Rasus diwrnod crempog ar y Sgwâr a Chinio Elusennol y Maer yng Nghastell Rhuthun
Cyng. John Wynne Hughes	
Cyng. Menna Jones	Cyfarfod Blynyddol Sioe Rhuthun, Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, bore coffi Sioe Rhuthun a phaned a chawl gyda Thîm Tref Taclus Rhuthun yn yr Hen Lys
Cyng. Ian Lewney	
Cyng. Jabez Oakes	
Cyng. Robert Owen-Ellis	Tair sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod y Grŵp Craffu ar Ddogfennau, cyfarfod gyda Phwyllgor y Banc Bwyd yn Ninbych i drafod costau symud y banc bwyd o Ganolfan Awelon ac atgyweirio ystafelloedd yn Neuadd y Dref, Rhuthun
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig

	Rhuthun a'r Cylch, digwyddiad Dyfodol Rhuthun yn yr Hen Lys, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, Cinio Elusennol y Maer yng Nghastell Rhuthun a digwyddiad Ymlaen Rhuthun i ddewis Brenhines y Carnifal ac ati yng Nghastell Rhuthun
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a Chinio Elusennol y Maer yng Nghastell Rhuthun
Cyng. Ifan Wyn	

223. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Esboniodd y Cynghorydd Emrys Wynne ei fod wedi anfon adroddiad ysgrifenedig ar ran y tri Chynghorydd Sir sy'n cynrychioli ward Rhuthun at y Clerc ac aelodau, ond ei fod wedi cael adborth nad oedd pobl wedi medru gweld cynnwys y ddogfen. Dywedodd y byddai'n anfon yr adroddiad eto fel dogfen pdf yn y bore. Cyfeiriodd y Cynghorydd Feeley at Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn gwrthod caniatâd cynllunio i'r 77 cartref fforddiadwy ar dir yng Nglasdir.

224. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2020 yn gywir.*

225. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

226. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.*

227. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.*

228. COFNODION Y GRŴP DINESYDD DA

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020.*

229. ADBORTH GAN Y GRŴP ARCHWILIO DOGFENNAU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y sylwadau a wnaed gan y Grŵp Archwilio Dogfennau ynghylch Siarter Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych gyda Chyngor Sir Ddinbych. Amlinellodd Gadeirydd y cyfarfod, y Cynghorydd Robert Owen-Ellis, feddyliau'r grŵp o ran pob adran yn y ddogfen.

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo'r sylwadau a'u cyflwyno i Gyngor Sir Ddinbych.*

230. CYFETHOL CYNGHORYDD TREF

Gofynnodd yr aelodau am gynnal y broses gyfethol trwy bleidlais bapur gyfrinachol. Roedd tri unigolyn wedi mynegi diddordeb yn y sedd wag. Cafodd y papurau pleidleisio eu cyfri gan y Clerc a'u dilysu gan y cyfieithydd ar y pryd a chadarnhaodd y Maer gyfethol Mr Mike Van Der Eijk fel aelod newydd y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD*: cyfethol Mr Mike Van Der Eijk yn aelod o'r Cyngor Tref a bod y Clerc yn gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn iddo lofnodi'r datganiad derbyn y swydd.*

231. ENWEBIADAU'R MAER A DIRPRWY FAER

Gofynnodd y Maer am enwebiadau ar gyfer Maer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-21 yn gyntaf. Cynigiodd y Cynghorydd Ifan Wyn y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Heather Williams, ar gyfer rôl y Maer ac eiliwyd hynny gan y Cynghoydd Jim Bryan. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill a phleidleisiodd yr aelodau'n unfrydol o blaid yr enwebiad. Gofynnodd y Maer am enwebiadau ar gyfer Dirprwy Faer. Cynigiodd y Cynghorydd Dave Snape y Cynghorydd Menna Jones ar gyfer rôl y Dirprwy Faer, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Anne Roberts. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill a phleidleisiodd yr aelodau'n unfrydol o blaid yr enwebiad.
PENDERFYNWYD*: enwebu'r Cynghorydd Heather Williams fel Maer a'r Cynghorydd Menna Jones fel Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2020-21.*

232. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Darparwyd diweddariad i'r aelodau ynghylch yr Hen Lys. Roedd y Clerc a Rheolwr yr Hen Lys wedi bod yn gweithio oddi yno am y pythefnos diwethaf. Roedd seiri wedi bod yno i gwblhau tasgau a byddai glanhau trylwyr yn digwydd ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu ddydd Mawrth a ddydd Mercher. Bwredir ystyried aelodau Is-bwyllgor Rheoli'r Hen Lys i oruchwylio sut y cynhelir y cyfleuster wrth symud ymlaen.
PENDERFYNWYD*: nodi'r diweddariad.*

233. DIWEDDARIAD YNGHYLCH FELODROM GOGLEDD CYMRU

Dangosodd y Maer y cyflwyniad a ddangoswyd i gynrychiolwyr clybiau beicio a chynrychiolwyr clybiau chwaraeon a hamdden yn ystod ymgynghoriadau Wythnos Dyfodol Rhuthun o ran y Felodrom arfaethedig. Dywedodd y byddai Cydlynydd Prosiect yn cael ei benodi am gyfnod 12 wythnos yfory a byddai'r ceisiadau gan ymgynghorwyr yn awyddus i gynnal astudiaeth ddichonoldeb a datblygu achos busnes yn dilyn hysbysebu'r cyfle ar GwerthwchiGymru yn cael eu sgorio yn ystod cyfarfod gyda Cadwyn Clwyd ddydd Mercher. Gwnaeth y Cynghorydd Emrys Wynne longyfarch y Cyngor Tref ar y gwaith hyd yma, ond nid oedd yn cytuno gyda'r safle a ffafrir ac awgrymodd Lôn Fawr. Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts o blaid y cysyniad, tra'n awyddus i gael rhagor o fanylion am ochr ymarferol cynnal y cyfleuster. Pwysleisiodd y Maer y byddai'r astudiaeth ddichonldeb yn edrych ar y pedwar safle, a byddai hefyd yn ystyried y dewisiadau gorau ar gyfer sicrhau defnydd y trac felodrom a'r maes chwarae 3G gan feicwyr a'r gymuned. Awgrymodd ef a'r Cynghorydd Bobby Feeley y dylid cynnal cyfarfod agored yn agos at y safle arfaethedig ac apeliwyd am gyfathrebu clir wrth symud ymlaen.
PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad ac aros am yr ymgyhori a chanlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb.*

234. CYNHADLEDD AR Y CYD SLCC AC UN LLAIS CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Glerc y Dref i fynd i Gynhadledd ar y Cyd SLCC ac Un Llais Cymru yng Ngwesty Pentref Dewi Sant, Ewloe, dydd Mercher, 20 Mai 2020, ar gost o £80 + TAW.
PENDERFYNWYD: *cymeradwyo'r cais i fynd i'r gynhadledd ar y cyd.*

235. MEDDALWEDD AR GYFER CYNGOR TREF RHUTHUN

Rhannwyd papur a gynhyrchwyd gan y Cynghorydd Dave Snape gydag aelodau, yn amlinellu cost prynu Microsoft Office 365 a meddalwedd arall ar gyfer cyfrifiadur a gliniadur Clerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys.
PENDERFYNWYD: *cymeradwyo prynu'r meddalwedd a'i osod ar y dyfeisiadau gynted ag y bo modd.*

236. CAIS AM GYFRANIAD

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen am gyfraniad tuag at Eisteddfod 2020 i'w chynnal 7-12 Gorffennaf. Cynigiwyd ac eiliwyd rhoi cyfraniad o £200, fel y llynedd.

PENDERFYNWYD*: cyfrannu £200 i Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen 2020.*

237. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2019/20

Hysbyswyd yr aelodau am y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2019-20 gan JDH Business Services, am ffi o £300.00 + TAW.

PENDERFYNWYD*: derbyn yr hysbysiad a chost archwiliad mewnol 2019-20.*

238. CYMERADWYO TALIADAU DEBYD UNIONGYRCHOL

Esboniodd y Clerc nad oedd y rhestr wedi'i hargraffu ac y byddai'n cael ei dosbarthu i'r aelodau yn y bore. Roedd yn cynnwys cyflogau'r Clerc a Rheolwr yr Hen Lys, cwmnïau cyfleustodau, y cyfrifydd a'r ad-daliadau i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB).

PENDERFYNWYD*: bod yr aelodau'n cytuno mewn egwyddor i daliadau debyd uniongyrchol i'r sefydliadau a amlinellwyd, yn ddarostyngedig i gadarnhau trwy e-bost yn dilyn dosbarthu'r rhestr.*

239. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 29 Chwefror 2020.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol am y cyfnod yn diweddu 29 Chwefror 2020.*

240. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100285	Cadwyn Clwyd	Cyfraniad tuag at astudiaeth ddichonoldeb Felodrom Gogledd Cymru		£3,333.00
100286	CAFC Clwyd 2020	Cyfraniad i CAFC Clwyd 2020 fel sir nawdd Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2020		£100.00
100287	Eglwys Sant Pedr	Costau llifoleuo 01.01.19 – 31.12.19		£1,017.79
100288	RA Digital	Cydlynu'r Prosiect Felodrom		£1,225.00
100289	Cyngor Sir Ddinbych	Cytundeb Lefel Gwasanaeth gwacau'r biniau baw ci 2019-20	*	£468.00
100290	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – Mawrth 2020	*	£180.00
100291	Hill & Roberts	Ffi cyfrifyddu a chyflogres – Mawrth 2020	*	£84.00
100292	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£701.62
100293	Cronfa Bensiwn Clwyd	Cyfraniadau pensiwn Tachwedd 2019 – Mawrth 2020		£1,281.65

O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys

100032	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am brynu mygiau, gwydrau a phlatiau, wrn dŵr poeth, a dyfais Android ar gyfer yr arddangosfa hanesyddol yn yr Hen Lys	*	£539.99

100033	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am brynu eitemau IKEA ar gyfer yr Hen Lys	*	£322.50
100034	Fran Smyth yn masnachu fel Hideaway	Dolenni lledr ar gyfer unedau'r gegin yn yr Hen Lys		£44.00
100035	Ruthin Décor Ltd	Paent ar gyfer yr Hen Lys	*	£32.83
100036	Richard Williams Ltd	Pren ar gyfer yr Hen Lys	*	£24.29

241. CORONAFEIRWS COVID-19

Gofynnwyd i'r aeloduau ystyried ymateb y Cyngor Tref i ledaeniad yr haint coronafeirws ar sail canllawiau gan SLCC a NALC, a chyfarwyddiadau'r Llywodraeth. Awgrymodd yr aelodau ei bod yn synhwyrol peidio â chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn dilyn y cyfarfod cyfredol, a gweithredu'r broses Pwerau Brys a ddefnyddir yn arferol yn ystod gwyliau'r haf ar gyfer unrhyw daliadau neu benderfyniadau brys sy'n ofynnol nes y gellir adfer cynnal cyfarfodydd. Gofynnodd y Clerc am wneud trefniadau iddi hi a Rheolwr yr Hen Lys weithio o adref petai'r ysgolion yn cau, a chytunodd yr aelodau i hynny.

PENDERFYNWYD: *peidio â chynnal rhagor o gyfarfodydd nes bo'r argyfwng coronafeirws COVID-19 drosodd, a gweithredu'r Pwyllgor Pwerau Brys i wneud unrhyw benderfyniad brys a chymeradwyo taliadau sy'n ofynnol nes bo modd adfer cynnal cyfarfodydd. Cytunwyd hefyd i wneud trefniadau i'r Clerc a Rheolwr yr Hen Lys weithio o adref petai ysgolion yn cau.*

242. COD QR YN LLEOLIAD COFEB TOM PRYCE

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Rhodri Clark o'r prosiect History Points i osod codau QR ar bolyn ger cofeb Tom Pryce i gynnwys gwybodaeth am y gofeb ar y wefan History Project.

PENDERFYNWYD: *cytuno i'r cais.*

RHAN DAU

Cynigiwyd ac eiliwyd ystyried yr eitem a ganlyn yn breifat.

243. CYFLOGAU STAFF CYNGOR TREF RHUTHUN

Rhannwyd manylion cyflogau Clerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys gyda'r aelodau, a'u hawliadau costau teithio a threuliau.

PENDERFYNWYD: *derbyn y manylion cyflogau a chymeradwyo talu'r hawliadau costau teithio a threuliau.*

244. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin ddylai fod dydd Llun, 20 Ebrill, ond ni fyddai'n cael ei gynnal yn awr. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal pan fo cyngor y Llywodraeth yn nodi y gellid adfer cysylltiad cymdeithasol.*